

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH DYDD MAWRTH, 17 TACHWEDD 2020

YN BRESENNOL:

Anne Lloyd Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Annwen Davies, Anwen Hughes, Judith Humphreys, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Dewi Owen a Dewi Wyn Roberts.

SWYDDOGION: Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL ar gyfer Eitem 9: Carey Cartwright, Sam Angel a Cara Williams (Tîm Dysgu a Datblygu)

Ar ran y pwyllgor, dymunodd y Cadeirydd estyn ei chydymdeimladau dwys gyda theulu'r Cyngorydd Charles Wyn Jones a fu'n aelod hynod weithgar ar y pwyllgor hwn.

Croesawyd y newyddion bod y Cyngorydd Dylan Bullard wedi ei benodi fel aelod newydd i'r pwyllgor hwn.

1. ETHOL IS GADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cyngorydd Dewi Owen yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cyngorydd Linda Ann Jones.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Nid oedd mater bryd.

5. COFNODION

Derbyniwyd fod y cofnodion o'r pwyllgor blaenorol yn gywir.

6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

PENDERFYNIAD

(a) Derbyn yr adroddiad.

(b) Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at yr aelodau yn hyrwyddo'r ad-daliadau mewn ymgais i godi'r niferoedd sy'n hawlio.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ei hadroddiad gan ofyn am sylwadau gan aelodau'r pwyllgor er mwyn ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 23ain o Dachwedd.

Rhodddwyd trosolwg o'r cynnydd arfaethedig mewn cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau aelodau etholedig. Nododd os byddai aelodau'n dymuno peidio ei dderbyn y bydd angen iddynt roi nodyn ysgrifenedig yn ôl y drefn arferol.

Tynnwyd sylw at y prif fater i drafod sef y gofid sy'n parhau ynghylch y gyfradd isel o aelodau sy'n hawlio'r ad-daliad tuag at ofal angenrheidiol ar gyfer plant ac oedolion dibynnol. Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod y gyfradd yn isel ar draws Cymru, ac felly bod gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd drafod dulliau hyrwyddo'r ad-daliad ymysg aelodau.

Nodwyd bod cam eisoes wedi ei gymryd wrth ddiddymu y gofyn blaenorol i gyhoeddi enwau'r sawl oedd yn hawlio'r ad-daliad. Mynegwyd bod y diddymiad yn hybu amrywiaeth mewn democratiaeth yn y gobaith y byddai mwy o bobl o gefndiroedd amrywiol yn sefyll fel cynghorwyr.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Awgrymwyd i dynnu sylw aelodau newydd at yr ad-daliad yn sydyn wedi eu penodiad, ac atgoffa'r aelodau presennol drwy anfon llythyr.
- Trafodwyd y posibilrwydd bod stigma yn gysylltiedig ag hawlio'r ad-daliad, felly bod angen pwysleisio fod y sawl sy'n hawlio yn aros yn anhysbys .
- Nodwyd bod angen normaleiddio hawlio'r ad-daliad drwy ei hyrwyddo ar lefel genedlaethol.
- Codwyd pryder bod aelodau presennol sydd yn gymwys i hawlio ddim yn gwneud hynny, ac awgrymwyd bod angen rhoi apêl allan iddynt ei hawlio.

7. ABSENOLDEB MABWYSIADU

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

Yn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ar ymestyn hyd absenoldeb mabwysiadu o bythefnos i 26 wythnos.

Nododd y byddai hynny'n sicrhau y byddai aelodau etholedig yn derbyn yr un hawliau a swyddogion. Ategwyd bod yr ymestyniad yma hefyd yn annog amrywiaeth mewn democratiaeth wrth i bobl o gefndiroedd amrywiol weld yr hyblygrwydd sydd ynghlwm a sefyll fel cynghorydd.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd am eglurder ynghylch hawliau absenoldeb beichiogrwydd i aelodau, ac mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith bod y rhain yr un fath i aelodau ag ydynt i Swyddogion.

8. DATBLYGIADAU A CHEFNOGAETH I AELODAU DROS Y CYFNOD COVID AC I'R DYFODOL.

PENDERFYNIAD

(a) Derbyn yr adroddiad.

(b) Cytunwyd bod angen trafodaethau pellach ar y ffordd ymlaen wedi i'r aelodau leisio eu barn ar ffurf cyfarfodydd y dyfodol.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ar y datblygiadau a chefnogaeth sydd wedi bod i aelodau yn ystod y cyfnod Covid-19. Dywedodd fod newid mawr wedi wynebu aelodau ynghyd a staff y Cyngor o ganlyniad i Covid-19 a chyfyngiadau ddaeth yn sgil y cyfnod clo. Nodwyd bod gofynion uchel wedi bod ar aelodau yn ystod y cyfnod diweddaraf. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hunan les a hunan ofal yn sgil y gofynion yma.

Cyflwynwyd crynodeb gan Arweinydd Tîm Democratiaeth yn amlinellu'r amryw ddatblygiadau sydd wedi bod. Nodwyd bod sawl aelod o staff y tîm wedi trosglwyddo i'r rheng flaen yn ystod y cyfnod clo cyntaf, fodd bynnag erbyn hyn roeddent wedi ail ymuno a'r tîm democratiaeth. Ymhelaethwyd gan nodi bod ffyrdd o weithio'r tîm wedi addasu'n gyfan gwbl er mwyn hwyluso gweithio o bell a chynnal cyfarfodydd a phwyllgorau yn rhithiol.

Wrth ymhelaethu, nododd bod nifer uchel o gyfarfodydd rhithiol wedi digwydd. Cynhaliwyd 28 o bwyllgorau ffurfiol yn y cyfnod hyd ddiwedd Hydref, 30 o gyfarfodydd anffurfiol gydag aelodau etholedig, a 23 o sesiynau hyfforddiant rhithiol gydag aelodau. Yn ogystal ag hynny, nodwyd erbyn hyn bod pob aelod etholedig wedi mynychu cyfarfod rhithiol.

Dywedodd fod ambell i nodyn positif wedi ymddangos ers y datblygiad o gyfarfod

yn rhithiol, gan bwysleisio bod presenoldeb aelodau wedi cynyddu ynghyd a'u parodwydd i gyfarfod.

Rhodddwyd mwy o wybodaeth ynghylch trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol. Soniwyd bod trafodaethau mewnol eisoes wedi bod ar waith a rhannwyd y pwyntiau canlynol ynghylch trefniadau'r dyfodol ar gyfer swyddogion;

- Sefydlwyd rhagdybiaeth ymysg swyddogion y byddant yn cynnal cyfarfodydd mewnol yn rhithiol yn y dyfodol.
- Cydnabuwyd y bydd rhaid i gyfarfodydd wyneb i wyneb ddigwydd yn achlysurol, er enghraifft ar benodiad swyddogion newydd neu ar gyfer sgwrs anodd.
- Nodwyd fod cyfarfodydd 'hybrid' yn cael eu hystyried yn llai ffafriol am ei fod yn gallu bod yn brofiad eilradd i'r rhai sydd yn ymuno o bell.

Agorwyd y drafodaeth i aelodau'r pwyllgor leisio eu barn ar sefyllfa'r dyfodol i aelodau.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Nodwyd bod angen cael cydbwysedd rhwng cyfarfodydd rhithiol a chorfforol. Awgrymwyd rhoi ystyriaeth i flaenoriaethu pa gyfarfodydd sydd wir angen bod yn digwydd yn gorfforol.
- Awgrymwyd bod angen gosod rheolau ynghylch yr amser mae aelodau yn treulio o flaen sgrin o ganlyniad i gyfarfodydd rhithiol. Nodwyd bod angen trefniadau clir ynghylch amser, osgo, a gosodiad y cyfrifiadur er lles aelodau.
- Canmolwyd y drefn rithiol ymysg aelodau sy'n byw yn bell o Gaernarfon gan eu bod yn arbed amser teithio, yn well i'r amgylchedd ac yn arbed arian costau teithio i'r Cyngor. Dywedwyd bod y drefn rithiol yn caniatáu iddynt gyflawni mwy mewn diwrnod gan nad ydynt yn teithio am gyfnod hir.
- Awgrymwyd bod y drefn rithiol yn hybu amrywiaeth mewn democratiaeth gan ei bod yn haws i bobl sy'n gweithio ymgymryd â dyletswyddau fel aelodau etholedig.
- Diolchwyd i swyddogion am addasu'n arbennig i drefn newydd o weithio a nodwyd eu bod yn ymateb yn sydyn i ymholiadau ac e-byst er eu bod yn gweithio gartref.
- Mynegwyd pryder fod angen i aelodau ystyried pwy sydd yn y cefndir tra bod cyfarfodydd rhithiol ar waith a chofio am ddiogelwch a chyfrinachedd.

9. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

Cyflwynodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ei adroddiad ar y ddarpariaeth sesiynau hyfforddiant o bell.

Rhoddwyd trosolwg o'r ddarpariaeth, gan amlygu llwyddiannau, heriau a datblygiadau sydd wedi bod gan y gwasanaeth o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Nodwyd bod y ddarpariaeth yn cynnwys pecynnau adnoddau, darpariaeth o fideos hyfforddiant a hyfforddi unigol.

Nodwyd bod y diwylliant o ddarparu hyfforddiant wedi newid cryn dipyn dros y misoedd diweddaraf a bod yr hen ddulliau yn amherthnasol erbyn hyn. Dywedwyd bod mwy o aelodau wedi ymgymryd â sesiynau hyfforddiant gan eu bod yn digwydd yn rhithiol, ac yn ogystal bod mwy yn cyfrannu yn ystod y sesiynau.

Gofynnwyd i'r aelodau ar y pwyllgor ystyried cynnwys y pecyn hyfforddiant newydd a rhoi adborth ar y dull o gynnig hyfforddiant yn rhithiol.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Dywedwyd bod mwy o gyfle i gymryd rhan wedi bod ers dyfodiad hyfforddiant rhithiol. Ategwyd ei bod yn syniad da i gynnal y sesiynau yn rhithiol gan ei bod yn fwy hwylus i fynychu heb fod gorfod teithio iddynt. Nodwyd y dylid ystyried cynnal rhai sesiynau gyda'r nos.
- Nodwyd bod mwy o aelodau i weld yn mynychu'r sesiynau rhithiol o gymharu ag rhai sydd angen teithio iddynt.
- Mynegwyd sylwadau ar y rhaglen newydd gan nodi ei bod yn ddiddorol ac yn cynnig hyblygrwydd.

10. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

PENDERFYNIAD:

Derbyn yr adroddiad a chefnogi cyfeiriad y rhaglen waith.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith amlinelliad o'r camau a'r datblygiadau sydd wedi digwydd hyd yn hyn ac sydd ar y gweill er mwyn hybu amrywiaeth mewn democratiaeth.

Nodwyd bod y pwyllgor heddiw wedi cyfeirio at sawl agwedd oedd yn berthnasol er mwyn hybu amrywiaeth, er enghraifft wrth drafod ad-daliadau gofal a chyfarfodydd rhithiol.

Cyfeiriwyd at un o'r meysydd targed sef hyrwyddo democratiaeth ymysg ieuenctid drwy sefydlu prosiect i annog pobl ifanc 16 i 17 oed i gofrestru i bleidleisio. Ategwyd at hyn gan nodi bod y cyfnod presennol wedi amlygu bod wir angen amrywiaeth fel bod aelodau yn medru ymateb i wahanol amgylchiadau sy'n codi o fewn y gymuned.

Dywedwyd bod angen bwrw ymlaen gyda'u hymgais i ddenu mwy o ferched, pobl ifanc a phobl anabl i gymryd rhan mewn etholiadau ac i sefyll mewn etholiadau. Ar y nodyn yma, gofynnwyd am ganiatâd y pwyllgor i gychwyn paratodau ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol 2022 ac am gefnogaeth i gyfeiriad y rhaglen waith.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Rhannwyd nifer o ddulliau o sut i gyfathrebu a hyrwyddo cyfranogiad ymysg y grwpiau targed.
- Mynegwyd bod y newid deddfwriaethol hefyd yn caniatáu dinasyddion o wledydd eraill i bleidleisio mewn etholiadau.
- Dywed fod posibilrwydd edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r her o hyrwyddo'r etholiad yn etholiadau Senedd Cymru yn 2021. Yn dilyn hynny, gall y Cyngor fabwysiadu'r un dulliau ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol.
- Cynigwyd bod angen amlygu ei fod yn bosib gwneud swydd cynghorydd ac ymgymryd â dyletswyddau teuluol neu barhau i weithio mewn swydd ar yr un pryd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 12:10.

CADEIRYDD

1.